

Ysgol Gynradd Gymraeg Terrig, Treuddyn

Anelwn i ddatblygu



Ffordd y Llan, Treuddyn, Sir y Fflint CH7 4LN
Ffôn / Telephone: 01352 770235
e-bost e-mail ytmail@terrig.flintshire.sch.uk

Cynnwys

Dysgu	4
Yr Ysgol a'r Cartref	8
Bywyd Ysgol	11
Yr Ysgol a'r Gymuned	20

Contents

Learning	4
School and Home Links	8
School Life	11
School and the Community	20

Croeso

Ein nod yn Ysgol Terrig yw creu awyrgylch hapus, teuluol a diogel lle gall pob un plentyn ddatblygu'n addysgol, yn gymdeithasol ac yn unigolyn.

Wrth groesawu eich plentyn fe estynnir croeso i chi y rhieni hefyd ac yn y llyfryn yma fe roddir cefndir a gwybodaeth am yr ysgol ar eich cyfer.

Gobeithir y cewch yr wybodaeth a ddarperir o gymorth i chi ddeall yr hyn y mae'r ysgol yn ei geisio ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae croeso i chi gysylltu neu ymweld a'r ysgol os hoffech drafod unrhyw elfen o fywyd ysgol eich plentyn.

Welcome

Our aim at Ysgol Terrig is to create a happy, a safe and a family environment where every child is able to develop individually, educationally and socially.

In welcoming your child to the school we also welcome you as parents and this booklet provides some information regarding the school and its background.

We hope that you find the information helpful to explain what the school aims to achieve with each and every pupil. You are more than welcome to contact or visit the school if you would like to discuss any aspect of your child's school life.

Pennaeth / Headteacher



Y Staff / The Staff

Nia Connah	Pennaeth Dros Dro	Acting Headteacher
Mrs Murray	Athrawes Ddosbarth	Class Teacher
Miss. G. L. Morris	Athrawes Ddosbarth	Class Teacher
Miss. R. M. Edwards	Athrawes Ddosbarth	Class Teacher
Miss. R. M. Edwards	Athrawes Addysg Anghenion Ychwanegol	Teacher for Additional Educational Needs
Mrs. S. D. Thelwell	Gweinyddes Meithrin	Nursery Nurse
Mrs. S. Emberton	Cymhorthydd Dosbarth	Classroom Assistant
Mrs. G. L. Smith	Cymhorthydd Dosbarth	Classroom Assistant
Miss. A. L. Rogers	Cymhorthydd Dosbarth	Classroom Assistant
Mrs. G. L. Smith	Ysgrifynyddes	Secretary
Mrs. G. L. Smith	Cymhorthydd Awr Ginio	Dinner Hour Assistant
Mrs. S. A. Emberton	Cymhorthydd Awr Ginio	Dinner Hour Assistant
Miss. A. L. Rogers	Cymhorthydd Awr Ginio	Dinner Hour Assistant
Mr T O'Neill	Gofalwr	Caretaker
Mrs L. Wilson	Glanhaur	Cleaner
Mrs. W. Shaw	Cogyddes	Cook
Mrs K Davies	Cymhorthydd y Gegin	Kitchen Assistant

Y Corff Llywodraethol / The Governing Body

Cadeirydd / Chairperson

Mr Dafydd Roberts (Cyngor Cymuned Treuddyn Community Council)

Is-Gadeirydd / Vice Chairperson

Mr. Nick Thomas (Rhiant *Parent*)

Mrs Gwenda Smith (Staff)

Mr. Mary Roberts (AALI *LEA*)

Mr. Richard Thomas (Rhiant *Parent*)

Mrs. Helen Roberts (Cyfetholwyd *Co-opted*)

Ms Nia Connah (Pennaeth *Headteacher*)

Ms Ceinwen Parry (AALI *LEA*)

Miss RM *Edwards* (Staff)

Mrs. Eleri (Clerc *Clerk*)

Cynhyrchir adroddiad blynyddol o waith yr Ysgol, gyda copïau ar gael drwy gydol y flwyddyn. Cynhelir cyfarfod blynyddol rhwng Llywodraethwyr a rhieni.

An annual report is produced of the School's work, and copies are available throughout the year. A Governors Annual Meeting is held with Parents.

Swyddog Cyswllt Sir y Fflint sydd yn gyfrifol am Ysgol Terrig yw Mr Dilwyn Jones.

The Flintshire County Council Link Officer responsible for Ysgol Terrig is Mr Dilwyn Jones.

Dysgu

Nodau yr Ysgol

- ◆ Sicrhau addysg o'r ansawdd orau
- ◆ Sicrhau awyrgylch ac amgylchedd lle gall pob disgybl ddatblygu'n addysgol ac yn gymdeithasol
- ◆ Cynnig addysg sydd yn adlewyrchu gofynion yr unigolyn
- ◆ I alluogi fod pob un disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg

Amcanion Cyffredinol

- ◆ Cynnal a chodi safonau cyflwyniad disgyblion ym mhob maes cwricwlaidd
- ◆ Gosod seiliau i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol
- ◆ Sicrhau cwricwlwm eang, gytbwys, perthnasol a chyfoethog
- ◆ I feithrin gwybodaeth, agweddau a medrau perthnasol i fywyd cyfoes
- ◆ Sicrhau cyfleoedd cyfartal
- ◆ I greu awyrgylch dysgu hapus a gofalus wedi ei selio ar barch.

Learning

School Aims

- ◆ *To ensure the best possible education*
- ◆ *To ensure an environment and an atmosphere where each pupil is able to develop educationally and socially.*
- ◆ *To offer education that is a reflection of the needs of the individual.*
- ◆ *To enable each pupil to become fluent in Welsh and English*

General Objectives

- ◆ *To maintain and raise the attainment of each pupil in every curriculum area*
- ◆ *To set the foundations to ensure effective learning and teaching*
- ◆ *To ensure a broad, balanced, relevant and rich curriculum*
- ◆ *To foster knowledge, attitudes and skills relevant to current life*
- ◆ *To ensure equal opportunities*
- ◆ *To create a happy, caring learning environment based on respect*



Y Cwricwlwm

Rhennir yr ysgol yn dair :

- ◆ Y Cyfnod Sylfaen, sef disgyblion dan 5oed (o 2008)
- ◆ Cyfnod Allweddol 1, sef disgyblion 5-7oed (o 2009)
- ◆ Cyfnod Allweddol 2, sef disgyblion 7-11oed



Seilir cwricwlwm yr ysgol ar Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2008. Mae saith (7) maes astudio i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen :

- ◆ Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- ◆ Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- ◆ Datblygiad mathemategol
- ◆ Datblygu'r Gymraeg
- ◆ Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- ◆ Datblygiad corfforol
- ◆ Datblygiad creadigol

Yn y ddau gyfnod allweddol fe ddysgir y pynciau canlynol o fewn fframwaith sgiliau i ddatblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

- | | |
|------------------------|--------------------|
| ◆ Cymraeg | ◆ Hanes |
| ◆ Saesneg | ◆ Daearyddiaeth |
| ◆ Mathemateg | ◆ Cerddoriaeth |
| ◆ Gwyddoniaeth | ◆ Celf |
| ◆ Technoleg Gwybodaeth | ◆ Addysg Gorfforol |
| ◆ Dylunio a Thechnoleg | ◆ Addysg Grefyddol |

Diwedd CA1 cafodd yr ysgol canlyniadau 100% ar draws y cwricwlwm ac ar diwedd CA2 cafodd yr ysgol ganlyniadau o 71% ar draws y cwricwlwm

The Curriculum

The school is divided into three :

- ◆ The Foundation Phase i.e. pupils under 5 years old (from 2008)
- ◆ Key Stage 1 i.e. pupils between 5 and 7 years old (from 2009)
- ◆ Key Stage 2 i.e. pupils between 7 and 11 years old

The school Curriculum is based on the 2008 National Curriculum of Wales. There are seven (7) fields of study for Foundation Phase pupils :

- ◆ Personal and social development, well-being and cultural diversity
- ◆ Language, literacy and communication skills
- ◆ Mathematical development
- ◆ Welsh Language Development
- ◆ Knowledge and understanding of the world
- ◆ Physical development
- ◆ Creative development



In both key stages the following subject are taught within the skills framework to develop thinking, communication, ICT and number across the curriculum.

- | | |
|--------------------------|-----------------------|
| ◆ Welsh | ◆ History |
| ◆ English | ◆ Geography |
| ◆ Mathematics | ◆ Music |
| ◆ Science | ◆ Craft |
| ◆ Information Technology | ◆ Physical Education |
| ◆ Design and Technology | ◆ Religious Education |

Ysgol Terrig had results of 100% at the end of the Foundation Phase and 71% at the end of KS2

Cymraeg

Ysgol Gymraeg yw Ysgol Terrig. Cymraeg yw prif gyfrwng yr ysgol ac fe anelir i greu ymwybyddiaeth ac ethos o Gymreictod o fewn yr ysgol.

Fe fydd plant o deuluoedd di-Gymraeg (81%), o deuluoedd dwyieithog (7%) yn ogystal â phlant o deuluoedd Cymraeg (10%) yn mynychu'r ysgol. Prif gyfrwng y dysgu ydy'r Gymraeg.

Y mae y plant yn dysgu ieithoedd yn llawer haws na oedolion. Mae ymchwil wedi profi fod dwyieithrwydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymennydd. Y mae gallu dwy iaith hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Un o'r brif bryderon y ceir gan rieni di-gymraeg yw trafferthion gyda gwaith cartref. Mae'r Ysgol yn anfon cyfarwyddiadau allan yn ddwyieithog.. Gwnewch hefyd ddefnydd o deulu neu ffrindiau sydd yn medru'r Gymraeg, mae pawb fel rheol yn barod eu cymorth. Y mae staff yr ysgol ar gael ar gyfer cyngor a chefnogaeth.

Yn ieithyddol mae'r disgyblion bob un yn ddwyieithog ac mae pwyslais yn cael ei roi ar waith llafar trwy gydol amser y plentyn yn yr ysgol i ymgyrraedd dwyieithrwydd.



Welsh

Ysgol Terrig is a Welsh School. Welsh is the main medium of the school and the school aims to create an awareness and an ethos of Welshness within the school.

Children from non-Welsh speaking families (81%), bilingual speaking families (7%) as well as those from Welsh speaking families (10%) attend the school. Welsh is the main medium of instruction.

Children learn languages much easier than children. Research has shown that bilingualism has a beneficial effect on the brain. The ability to be fluent in two languages also provides more work opportunities in the future.

One of the main concerns expressed by non-Welsh speaking parents is difficulty with homework. The School sends bilingual instructions home. Often families make use of Welsh speaking Friends or families, people are normally only too happy to help. The school Staff are always available to provide advice and support.

Linguistically all pupils are bilingual and emphasis is given on language work throughout the child's time at Ysgol Terrig so as to achieve bilingualism.

Addysg Anghenion Ychwanegol

Mae disgyblion sydd yn cael trafferthion addysgol yn derbyn cymorth dysgu ychwanegol o fewn yr ysgol. Mae aelod o'r staff sydd a chyfrifoldeb penodol dros y maes yma sydd yn gweithio'n agos gyda chi y rhieni yn ogystal â'r athrawon dosbarth. Mae 19% o blant Ysgol Terrig sydd ar restr Anghenion Arbennig

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Caiff holl ddisgyblion yr ysgol eu dysgu am bwysigrwydd :

- ◆ hyder a chyfrifoldeb
- ◆ dinasyddiaeth
- ◆ ffordd iach a diogel o fyw
- ◆ perthnasoedd da
- ◆ a pharchu gwahaniaethau

Addysg Ryw

Bydd Addysg Rhyw yn cael ei gyflwyno'n ofalus, yn feddylgar, yn ôl oed ac aeddfedrwydd y disgyblion. Fe ddigwydd hyn yn rhan o wersi ffurfiol Gwyddoniaeth, o dan fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol a chan nyrs yr ysgol. Os oes pryderon gennych chi ynglŷn a hyn yna cysylltwch a'r Pennaeth.

Addysg Grefyddol a Chyd Addoliad

Fe gynhelir gwasanaethau ar y cyd yn Neuadd yr ysgol. Fe gynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch a Gwasanaeth Nadolig yn flynyddol. Mae Addysg Grefyddol yn rhan o gwricwlwm yr ysgol. Os ydych yn dymuno i'ch plentyn gael ei eithrio o'r gweithgareddau hyn rhaid drwy drefniant ffurfiol gyda'r Pennaeth.

Trefniadaeth Dosbarthiadau

Fe gyhoeddir trefn y dosbarthiadau yn flynyddol ym mis Gorffennaf yn barod at y flwyddyn ganlynol.

Additional Education Needs

Children who experience difficulty with any aspect of their education are given additional tuition within the school. A member of staff has due responsibilities for this work and works closely with you as parents as well as with the class teachers. There are currently 19% of children receiving Additional Education

Personal and Social Education

Every pupil is taught the importance of :

- ◆ confidence and responsibility
- ◆ citizenship
- ◆ a healthy and safe living style
- ◆ good relationships
- ◆ and to respect differences

Sex Education

Sex Education is mindfully and carefully introduced to the pupils according to age and maturity. This occurs formally through Science, under the framework of Personal and Social Education and by the school nurse. If you have any concerns regarding this please contact the Headteacher.

Religious Education and Collective Worship

Collective services are held in the school Hall. Thanksgiving and Christmas Services are held annually. Religious Education is a part of the school's curriculum. If you do not wish for your child to participate in these activities formal arrangements must be made with the Headteacher.

Class Organisation

Class organisation is announced in July in preparation for the forthcoming year.

Yr Ysgol a'r Cartref

Cytundeb Ysgol a'r Cartref

Pan fo disgyblion yn dechrau yn yr ysgol, disgwylir i'r rhieni arwyddo cytundeb rhwng yr ysgol a'r cartref. Yn syml mae'r rhieni yn cytuno i:

- ◆ sicrhau fod fy mhlentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon gyda'r adnoddau priodol;
- ◆ gadael i'r ysgol wybod am unrhyw absenoldebau neu unrhyw bryderon a phroblemau all effeithio ar waith neu ymddygiad fy mhlentyn; a cheisio cael gwyliau teulu yn ystod amser gwyliau lle bo hynny yn bosibl.
- ◆ cefnogi gweithdrefnau a pholisïau'r Ysgol ar ddisgyblaeth;
- ◆ cefnogi fy mhlentyn gyda'i waith cartref ac unrhyw gyfleoedd eraill sydd ar gael i ddysgu yn y cartref;
- ◆ ceisio mynychu Nosweithiau Rhieni a thrafodaethau ynghylch datblygiad fy mhlentyn.
- ◆ Parchu polisiau ysgol (e.e parcio yn gyfreithlon)

Bydd yr Ysgol yn :

- ◆ annog y disgyblion i wneud eu gorau bob amser;
- ◆ annog y disgyblion i ymfalchïo yn eu hamgylchfyd ac i ofalu am eraill sydd o'u cwmpas;
- ◆ cysylltu a'r rhieni os oes pryderon neu broblem all effeithio ar waith neu ymddygiad y disgybl;
- ◆ hysbysu'r rhieni os oes problem ynghylch prydlondeb neu diffyg adnoddau;
- ◆ gosod, marcio a monitro gwaith cartref yn ol yr angen;
- ◆ trefnu Nosweithiau Rhieni pryd y gellid trafod datblygiad y disgyblion;
- ◆ gadael i'r rhieni wybod am ddigwyddiadau yn yr ysgol.



School and Home Links

Home and School Agreements

When a child starts at the school, each parent will be asked to sign an agreement between the school and the home.

Basically the parents agree to:

- ◆ see that my child goes to school regularly on time and properly equipped;
- ◆ let the school know about any absences, concerns or problems that might affect my child's work or

behaviour; and book holidays during school holiday whenever possible

- ◆ support the school's policies and guidelines for behaviour;
- ◆ support my child in homework and other opportunities for home learning;
- ◆ try to attend Parents' Evenings and discussions about my child's progress.
- ◆ respect school policies (e.g. park legally)

The School will:

- ◆ encourage the pupils to do their best at all times;
- ◆ encourage the pupils to take care of their surroundings and others around them;
- ◆ contact parents if there is a problem with attendance, punctuality or equipment;
- ◆ let parents know about any concerns or problems that affect their child's work or behaviour;
- ◆ set mark and monitor homework as appropriate;
- ◆ arrange Parents' Evenings during which progress will be discussed;
- ◆ keep parents informed about school activities.

Polisi Drws Agored

Mae gan yr ysgol bolisi “agored” i’r rhieni ar unrhyw adeg rhesymol i drafod unrhyw faterion ychwanegol neu broblemau a gyfyd.

Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod yn reolaidd i ddisgyblion CA1 a CA2. Mae’r ysgol yn gofyn i’r rhieni ofalu fod y gwaith yn cael ei gyflawni a’i ddychwelyd i’r ysgol yn ôl y gofyn.

Adroddiad ar Gynnydd Disgybl

Fe gaiff holl waith y disgyblion ei farcio.
Fe asesir ac fe gofnodir y gwaith o’r dosbarth Meithrin i ddosbarth Blwyddyn 6. Fe gynhelir asesiadau athrawon blynyddol gyda disgyblion blwyddyn 2 a 6. Fe gynhelir noson rieni yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn.
Mae canlyniadau asesiad athrawon blynyddol CA1 a CA2 a thargedau CA2 ar gael gan y Pennaeth yn ôl y gofyn. Fe gaiff y rhain eu trafod hefyd gyda’r rhieni mewn cyfarfodydd ysgol â rhieni.

Yn ystod tymor yr haf fe ddosberthir adroddiadau blynyddol ac fe drefnir noson rieni (dewisol) i drafod yr adroddiad hwnnw. Fe gyhoeddir manylion pob noson rieni o flaen llaw.

Open Door Policy

The school has an ‘open door’ policy of being available to the parents at any reasonable time to discuss any additional issues or concerns that may arise.

Homework

Homework is regularly set for pupils in KS1 and KS2. The school requests that parents ensure that the work is completed and returned to school as requested.

Pupil Progress Report

Every item of work produced by the pupils is marked. The work is assessed and recorded from Nursery to Year 6. Teacher assessments are held annually with pupils in year 2 and 6. Parents evenings are held during the Autumn and Spring terms. Annual KS1 and KS2 teacher assessment results and KS2 targets are available from the Headteacher. These are also discussed with parents during school parent meetings.

During the Summer term the annual report is issued and arrangements are made for this report to be discussed in the parents evening held during the Summer term (optional). Prior notice is given before hand for every parents evening.



Trefniadau ar gyfer delio a Chwynion

Fel ysgol ymfalchiwn yn y berthynas ddyddiol sydd yn bodoli rhwng yr athrawon a'r rhieni. Os ydi'r angen i godi cwynion ynglŷn ag unrhyw agwedd o waith yr ysgol gyda'ch plentyn chi yn codi dylid cysylltu a'r ysgol ar unwaith. Gall unrhyw gwyn fod yn gysylltiedig a lles, diogelwch, disgyblaeth, ymddygiad neu gwaith eich plentyn o fewn yr ysgol.

Gellir gweld dogfen sy'n egluro'r trefniadau uchod yn Swyddfa'r Ysgol, y mae pum elfen:-

- ◆ Lefel anffurfiol - trafodaeth gyda'r athro/athrawes
- ◆ Trafodaeth gyda'r Pennaeth Cyfnod Sylfaen / Athrawes Gynhwysol (os yn addas)
- ◆ Cyfarfod gyda'r Pennaeth
- ◆ Cwyn swyddogol i'r Corff Llywodraethol drwy lythyr ysgrifenedig wedi ei arwyddo.
- ◆ Cwyn swyddogol i'r Awdurdod Addysg Lleol.

Gellir ymdrin a llawer o gwynion / sylwadau yn gyflym ac yn effeithiol drwy drafod y mater gyda'r Pennaeth.

Arrangements for the Consideration of Complaints

As a school, we pride ourselves on the daily relationship that exist between the staff and the parents. If the occasion arises that there is a need to express a complaint regarding any aspect of the work of the school with your child do not hesitate to contact the school. Any complaint can be linked to the well being, the safety, the discipline, the behaviour or work of your child.

A document explaining the arrangements may be examined at the school office.

There are five areas:-

- ◆ Informal level - discussion with the teacher
- ◆ Discussion with Head of Foundation Phase / Inclusion Teacher (if appropriate)
- ◆ Meeting with Headteacher
- ◆ Formal complaint to the Governing Body-in the form of a signed letter.
- ◆ Formal complaint to the Local Education Authority.

Many complaints / observations can be quickly and effectively dealt with through discussions with the Headteacher.



Bywyd Ysgol

Amseroedd Ysgol

8:50 y bore – 3:15 y prynhawn

Dosbarth Meithrin

8:50 y bore – 11:30 y bore (gellir trosglwyddo i Meithrin + hyd 3 y prynhawn, Dydd Llun, Mercher a Gwener)

Agorir yr ysgol i blant am 8:40 y bore er mwyn gallu dechrau'r diwrnod yn brydlon am 8.50 y bore.

Derbyniadau i Ysgolion

Bydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn gyfrifol am drefnu derbyniadau i'r ysgol yn ôl eu Polisi a Threfn Derbyniadau i Ysgolion. Cewch fanylion pellach yn 'Dogfen Wybodaeth Ysgolion y Cynulliad Cenedlaethol'.

Dosbarth Meithrin - Mae Addysg Feithrin yn cael ei gynig bob bore. Mae'r plant yn cael eu derbyn

ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed.

Dosbarth Derbyn - Mae'r plant yn cael eu derbyn ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed.

Derbynnir plant sy'n symud o ardal arall i mewn i'r ysgol yng nghanol y flwyddyn academaidd a byddant yn cael eu hintegreiddio i'w dosbarthiadau priodol.



School Life

School Hours

8:50 am – 3:15 pm

Meithrin Class

8:50 am – 11:30 am (children can transfer to Meithrin + until 3 pm Monday, Wednesday, Friday)

The School opens to the children at 8:40am so that the school day can start promptly at 8.50am.

Admission Policy

Admission to the school is subject to the Local Education Authority's 'Policy and Procedure for Admissions to Schools', details of which are included in the 'Schools Information Document'.

Nursery Class - Nursery Education is provided every morning. Children are admitted in the September following their 3rd birthday.

Reception Class - Reception age children are admitted in the September following their 4th. birthday.

Children moving from other areas may be admitted mid year and they are integrated within their appropriate class.

Gwisg Ysgol

Disgwylir i bob disgybl gydymffurfio a pholisi gwisg yr ysgol

- ◆ Sgert / trowsus glas
- ◆ Crys polo melyn
- ◆ Crys chwys glas
- ◆ Sanau gwynion / glas/llwyd teits
- ◆ Esgidiau duon
- ◆ Pinaffor glas
- ◆ Ffrog glas a gwyn Gingham
- Trowsus llwyd / du
- ◆ Crys chwys glas
- ◆ Crys polo melyn
- ◆ Esgidiau duon

Gellir archebu crysau polo melyn, crysau chwys glas drwy'r ysgol.

Mae modd rhoddi cymorth ariannol gydag eitemau o ddillad i ddisgyblion oed ysgol gynradd. Nid yw'r cymorth yma ar gael o'r ysgol. Os ydych chi'n gymwys i dderbyn cefnogaeth o'r fath cysylltwch ag Ysgrifenyddes yr ysgol / Pennaeth am ragor o wybodaeth.

School Uniform

It is expected that every pupil conforms with the uniform policy of the school.

- ◆ Navy blue skirt / trousers
- ◆ Yellow polo shirt
- ◆ Blue sweat shirt
- ◆ White / blue/grey socks / tights
- ◆ Black shoes
- ◆ Navy blue pinafore dress
- ◆ Blue and white Gingham dress
- ◆ Grey / black trousers
- ◆ Navy blue sweatshirt
- ◆ Yellow polo shirt
- ◆ Black shoes

It is possible to order yellow polo shirt, navy blue sweat shirt through the school.

Financial assistance is available for items of clothing for pupils of primary school age. This assistance is not available from the school. If you are eligible for such support please contact the Secretary / Headteacher for further details



Disgyblaeth ac Ymddygiad

Os yw'r agweddau iach sydd yn hanfodol yn natblygiad pob disgybl i'w meithrin o fewn yr ysgol mae'n rhaid wrth ddisgyblaeth. Ein nod yn Ysgol Terrig yw argyhoeddi'r disgyblion o bwysigrwydd parch at bawb a phopeth. Mae hyn yn hybu hunan barch sydd yn ei dro yn ennyn pwrpas a threfn yn ein bywydau. Disgwylir safon uchel o ymddygiad.

Hyderwn fod y gofal o'r disgyblion o fewn yr ysgol yn arwain at ddisgyblaeth iach a theg sydd yn hybu cyfraniad llawn gan unigolyn o fewn yr ysgol gyfan.

Gwelir y berthynas agos sydd yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref yn sicrhau llwyddiant y drefn yma. Y nod yw creu cymdeithas a chymuned deuluol o fewn yr ysgol sydd yn estyniad o holl werthoedd y cartref. Os na ddaw yr hyn sydd yn ddisgwyliedig ddod yn rhwydd i'r disgyblion disgwylir cydweithrediad llawn y rhieni i oresgyn trafferthion.

Ar ddechrau gyrfa pob disgybl yn yr ysgol fe ddosberthir cytundeb ysgol cartref i'w gwblhau a'i ddychwelyd i'r ysgol gennyh chi y rhieni.

Anogir ymddygiad da drwy system gwobrwyo, er enghraifft tystysgrifau, wynebau hapus a.y.b.

Discipline and Behaviour

To foster those healthy attitudes necessary in the development of each pupil the school must have a discipline. Our aim at Ysgol Terrig is to recommend to the pupils that it is important to respect everybody and everything. This promotes self-discipline which in turn instils purpose and direction to our lives. A high standard of behaviour is expected.

We trust that the care of the pupils within the school leads to a healthy and fair discipline that encourages a full contribution from the individual within the whole school.

The close relationship that exists between the school and the home ensures the success of this system. The aim is to create a society and a community within the school that is an extension of all home values. If what is expected does not come easily to the pupils your co-operation as parents is expected to overcome the difficulties.

On admission to school a home school agreement is issued to be completed and returned to the school by you the parents.

Good behaviour is encouraged through the use of rewards, for example certificates and happy faces.

Presenoldeb ac Absenoldeb

Mae'r ysgol yn agored i'r disgyblion 190 diwrnod y flwyddyn. Ni ellir osgoi absenoldeb oherwydd anaf neu salwch. Llythyr neu alwad ffon sydd ei angen i egluro absenoldeb o'r fath. Mae'n ofynnol i'r teuluoedd hynny sydd yn trefnu gwyliau yn ystod y tymor gwblhau a dychwelyd Ffurflen Wyliau. Mae'r ffurflenni yma ar gael yn ôl y gofyn. Mae yr ysgol yn ddiolchgar os yw rhieni yn cadw absenoldeb oherwydd gwyliau yn ystod y tymor i'r lleiafswm posibl. Nifer presenoldeb yr ysgol yw 93%

Salwch ac Anafiadau

Fe gysylltir a'r rhieni pan fydd disgybl wedi ei anafu neu'n sâl. Pe cyfyd yr angen fe wneir defnydd o'r wybodaeth a dderbynnir gennych chi ynglŷn a'ch plentyn i weithredu'n ôl y galw wrth sicrhau gofal o'ch plentyn. Mewn argyfwng neu achos o ddamwain fe weithredir yn y fan a'r lle.

Golygai hyn y bydd yr ysgol yn galw am ddoctor, yn hebrwng y disgybl at y meddyg, neu i'r ysbyty, neu fe fydd yr ysgol yn galw am ambiwlans. Fe fydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gysylltu a'r rhieni ar fyrder.

Meddygaeth

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw ymateb i bob cais ysgrifenedig gan rieni ynglŷn a gweinyddu meddyginiaeth disgybl.

Bydd ymateb y Pennaeth wedi ei seilio ar amgylchiadau'r disgybl a'r staff o fewn yr ysgol. Os oes amheuaeth ynglŷn a phresenoldeb eich plentyn yn yr ysgol ar sail rhesymau meddygol dylid cael cyngor gan eich meddyg teulu.



Attendance and Absence

The school is open to the pupils 190 days per year. Absence due to illness or injury cannot be avoided. A letter or a phone call of explanation is all that is needed to explain such absences. It is necessary for those families that arrange their family holidays during school time to complete and return a Holiday Form. These forms are available upon request. The school appreciates if parents can keep absences due to holidays during term time to as few as possible. Attendance figures at Ysgol Terrig is 93%

Illness and Injury

The school will contact the parents if the pupil is ill or injured. If the situation arises the school will use the information that you have provided about your child so as to take the necessary steps to safeguard your child.

In an emergency or in the event of an accident the school will take immediate action.

This means the school will call a doctor, take the pupil to the surgery or the hospital or the school will call an ambulance. Every effort will also be made to immediately contact the parents.

Medication

It is the responsibility of the Headteacher to respond to each written request to administer pupil medication. The Headteacher will base this response upon the pupil's circumstances as well as the circumstances of the school staff.

If you have any doubts regarding the attendance of your child in school based on medical reasons your family doctor is best for advice.

Diogelwch


Mae'r ysgol yn ofalus ac yn feddylgar iawn o ddiogelwch disgyblion, staff ac ymwelwyr o fewn yr adeilad ac ar dir yr ysgol. Fe wneir pob ymdrech posibl gan yr ysgol i sicrhau pob diogelwch. Mae'r ysgol bob amser yn agored i dderbyn sylwadau. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ôl y gofyn gan y Pennaeth.

Mynediad

Cerddwyr – disgwylir i'r disgyblion sydd yn cerdded i'r ysgol ddefnyddio giataiau cerdded Bryn yr Ysgol a Ffordd y Llan. Ni ddylid croesi Maes Parcio'r Staff o gwbl. Dylid cadw at y llwybr cerdded melyn. Ni ddylid defnyddio'r giatau mawr dwbl yn fynedfa gan gerddwyr.

Teithwyr mewn ceir - Disgwylir i'r disgyblion sydd yn teithio mewn car neu dacsï i'r ysgol ddefnyddio'r llwybr giât sydd yn arwain i'r buarth o faes parcio'r ymwelwyr.

O ran diogelwch disgwylir i bawb gadw at y canllawiau hyn.



Cludiant

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant di-dâl mewn rhai achosion, gellir cael manylion pellach gan Gyngor Sir y Fflint.

Safety

The school is very careful and mindful of the safety of pupils, staff and visitors within the school building and on its grounds. Every possible effort is taken by the school to ensure all security. The school is always ready to receive comments. Further information is available from the Headteacher upon request.



The large double gates must not be used as gateways for pedestrians.

Travellers by car - The pupils that travel to school by car or taxi are expected to use the gate and the pathway that leads from the visitors car park onto the school yard.

For safety reasons everyone is expected to keep to these guidelines.

Transport

The Local Authority provides transport free of charge to the school in some instances, further information if available from Flintshire County Council.

Access

Pedestrians – pupils that walk to school must use the Bryn yr Ysgol and Ffordd y Llan gateways.

Pupils must not cross the Staff Car Park.

Pupils must keep to the yellow stoned pathways.

Prydau Cinio

Mae cinio ysgol yn cael ei ddarparu yn y gegin yn ddyddiol. Bydd bwydlen a phrisiau yn cael eu pennu gan yr AALI ac yn cael eu dosbarthu mewn da bryd er gwybodaeth i'r disgyblion a'r rhieni. Disgwylir i'r rhieni ddarparu pecyn o fwyd i'w plant os nad ydynt yn derbyn cinio ysgol. Mae modd gwneud cais am gymorth ariannol i dalu am brydau bwyd yr ysgol. Mae'r manylion a'r wybodaeth ynglŷn a hyn ar gael gan Ysgrifenyddes yr ysgol.



Nofio

Fe fynychir pwll nofio Gwyn Evans Gwersyllt unwaith yr wythnos am dymor o'r flwyddyn gan ddisgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6. Er mwyn cynnal y costau teithio i'r weithgaredd yma fe werthfawrogir pob cyfraniad gan y rhieni.

Ymweliadau Ysgol

Fe ystyrir pob ymweliad yn ymweliad addysgol. Bydd yn arferiad gan yr ysgol i fynychu'r canolfannau preswyl ym Mhentrellyncymmer, Glanllyn Caerdydd a Llangrannog. Yn y canolfannau yma ceir amrywiaeth eang o brofiadau sydd yn ateb gofynion sawl maes o'r cwricwlwm Cenedlaethol a mwy. Fe roddir gwybodaeth o flaen llaw ynglŷn a phob ymweliad addysgol, sydd yn cynnwys trefn diogelwch, dulliau talu, dulliau di-dâl, amserlenni a gweithgareddau ag ati.

Yr Urdd

Mae y Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn talu am aelodaeth Urdd plant Blwyddyn 3 i 6

School Meals


School meals are prepared daily in the school kitchen. The menu and the price is set by the LEA and this information is circulated to the pupils and parents. Parents are expected to provide a packed lunch for their children if they do not take school meals. Financial assistance is available to pay for school meals. Details and information regarding this is available through the school Secretary.

Swimming

For a terms of the year Years 3,4,5 and 6 visit the Gwyn Evans Pool, Gwersyllt. Every contribution is appreciated towards the costs of transport.

School Visits

Every school visit is regarded as an educational visit. The school visits the residential centres at Pentrellyncymmer, Glanllyn, Cardiff and Llangrannog. The pupils experience a wide variety of opportunities that cover several aspects of the National Curriculum at these centres. Information and details regarding safety, payments, remissions, timetables and activities etc. are issued for these visits before hand.



The Urdd

The Parents and Teachers Association pays for the membership of the Urdd for children Year 3 to 6

Amddiffyn Plant

Mae'n ddyletswydd statudol ar yr ysgol i amddiffyn plant. Fe wneir hyn gan gyfeirio unrhyw amheuaeth o gam-drin plant wrth yr asiantau perthnasol

Iechyd a Diogelwch, Aseidiadau Risg

Mae holl ddogfennaeth a threfniadaeth sydd yn berthnasol i'r maes yma ar gael gan y Pennaeth yn ôl y gofyn.

Cyfle Cyfartal

Anelwn i ddarparu awyrgylch sydd yn hapus, yn ddiogel ac yn llawn gofal i bob disgybl gan roi pob ystyriaeth i bob angen addysgol, cymdeithasol a chorfforol. Anelwn i feithrin agweddau iach tuag at bawb a phopeth yn wahaniaethau rhyw, lliw a chymdeithas, yn grefydd ac anghenion arbennig. /

Anableddau

Anelwn i gynnal ac i ddysgu pob disgybl ar lefel berthnasol. Bydd pob disgybl sydd yn manteisio ar addysg yn yr ysgol yn cael ei drin yn gyfartal.

Fe ddarperir gwaith gwahaniaethol yn ôl y gofyn. Mae'r adeilad yn hwylus addas ar gyfer y boblogaeth bresennol sydd yn mynychu'r ysgol. Mae rhai cyfleusterau anabl ar gyfer ymwelwyr. Mae'r ysgol yn agored i fedru addasu'r adeilad ymhellach yn ôl y galw.

Child Protection

It is the school's statutory duty to protect children. This is done by referring any suspicions of child abuse to the relevant agencies.

Health and Safety Risk Assessments

All documentation and procedures relevant to this aspect are available from the Headteacher upon request.

Equal Opportunities

We aim to provide every pupil with a happy, secure and caring environment taking into account every physical, social and educational need. We aim to foster healthy attitudes towards everyone and everything, towards differences in gender, colour, society, religion and special needs.

Disabilities

We aim to provide and educate every pupil at the appropriate level. Every pupil that benefits from education in the school is treated equally. Differentiated work is provided as required. The building is appropriate to accommodate the present population of the school. There is some disabled provision for visitors. The school is open to further adapt the building as the need arises.

Polisi Codi Tâl a Pholisi Rhyddhad Rhag Talu Deddf Diwygio Addysg 1988

Codir tâl am y canlynol

- ◆ Gwisg Ysgol
- ◆ Cinio Ysgol
- ◆ Bwyd Bore
- ◆ Costau gweithgareddau ychwanegol
- ◆ Gweithgareddau preswyl
- ◆ Unrhyw ddifrod bwriadol i eiddo'r ysgol

Bydd yr ysgol yn cyhoeddi pa weithgareddau sydd yn gymwys i geisiadau di-dâl.

Charging and Remissions Policy Education Reform Act 1988

Charges are made for the following :

- ◆ School Uniform
- ◆ School Meals
- ◆ Morning Snack
- ◆ Costs for additional activities
- ◆ Residential Activities
- ◆ Any deliberate damage to school property

The school gives notice of activities are eligible for applications for remission.



Gwersi Offerynnau Cerdd

Fe gynhelir gwersi offerynnol yn wythnosol a bydd cyfle i arddangos y talentau hyn mewn gweithgareddau.

Clwb

Fe gynhelir clybiau wythnosol i ddisgyblion blwyddyn 3,4,5 a 6 rhwng 3.15 a 4.30pm. Fe gaiff y disgyblion gyfle i brofi amrywiaeth o weithgareddau yn bennaf o fyd chwaraeon.

Tywydd Garw

Fe gaiff manylion a chanllawiau a ddefnyddir gan yr ysgol ar adegau o dywydd garw eu dosbarthu ar ddechrau pob blwyddyn ysgol.



Mae holl bolisiâu a chynlluniau'r ysgol ar gael gan y Pennaeth yn ôl y gofyn.

Musical Instrument Lessons

Music lessons, are held weekly and pupils are given ample opportunities to display their talents at events.

Club

A weekly clubs is held for Year 3,4,5 and 6 pupils, between 3.15 and 4.30pm. The pupils have the opportunity to experience a variety of activities mainly of a sporting aspect.

Adverse Weather

Details and procedures regarding adverse weather are issued at the beginning of each school year.

All school plans and policies are available from the Headteacher upon request.

Yr Ysgol a'r Gymuned

Mae'n draddodiad i'r ysgol gefnogi gweithgareddau cymunedol lle bo hynny bosibl. Mae'n draddodiad gan yr ysgol i gynnal cyngherddau a gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ysgol fel a ganlyn:

- Gwasanaeth Diolchgarwch
- Cyngerdd / Gwasanaeth Nadolig

Mae croeso cynnes i'r gymuned leol fod yn rhan o'r agwedd yma o fywyd yr ysgol. Mae pentref Treuddyn a'r fro lleol yn hynod o weithgar ac o bryd i'w gilydd fe wahoddir yr ysgol i gefnogi'r gymdeithas ac fe gynhelir gweithgareddau ychwanegol.

Mae'r ysgol yn cefnogi :

- Eisteddfod Treuddyn
- Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru
- Gweithgareddau'r maes chwarae – nofio, pêl-droed, pêl-rwyd, rownderi ac athletau
- Gŵyl Treuddyn

The School and the Community

It is the tradition of the school, where possible, to support community activities. It is the tradition of the school to hold concerts and services during the school year as follows:

- ◆ Harvest Thanksgiving
- ◆ Christmas Carol Service / Concert

The local community is always welcomed to be a part of this aspect of school life. Treuddyn and the locality is very active and the school from time to time is invited to support the community with additional activities.

The school supports

- ◆ Treuddyn Eisteddfod
- ◆ Urdd Gobaith Cymru Eisteddfod
- ◆ Sporting events – swimming, football, netball, rounders and athletics Instrumental lessons –
- ◆ Treuddyn Festival